# POLISI DYSGU AR LEIN

*[Document subtitle]*

# Polisi Dysgu ar-lein

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr, rhieni a gofalwyr, ymwelwyr, a defnyddwyr cymunedol) sydd â mynediad at systemau digidol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol ac sy'n eu defnyddio). Mae hefyd yn berthnasol i ddefnyddio technoleg ddigidol bersonol ar safle'r Ysgol (pan ganiateir hynny).

# Cyflwyniad y Polisi:

**Mae'r polisi yn esbonio prosesau Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School wrth weithio ar lein gan gyfeirio at gyfrifoldebau, diogelwch a phwysigrwydd dilyn canllawiau.**

**Nod ac Amcanion y Polisi:**

- **Plethu gyda'r 4 Diben gan fod yn uchelgeisiol, mentrus, dinasyddion ofalgar trwy ddilyn prosesau dysgu ar lein**
- **Plethu gyda'r egwyddor Dysgu Cyfunol (Egwyddorion Addysgeg Cwricwlwm i Gymru)**
- **Plethu gyda'r Polisi Diogelwch ar lein**
- **Egluro'r prosesau mewn modd syml ac effeithiol**

**Datblygu / monitro / adolygu'r polisi hwn**

Mae'r polisi dysgu ar-lein hwn wedi cael ei ddatblygu gan weithgor TGCh sy'n cynnwys:

- *Pennaeth/uwch arweinwyr*
- *Swyddog/cydlynydd diogelwch ar-lein*
- *Staff - gan gynnwys ymarferwyr, staff cymorth, staff technegol*

Ymgynghorwyd â chymuned yr ysgol cyfan mewn amrywiaeth o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

**Amserlen ar gyfer datblygu / monitro / adolygu**

| | |
|---|---|
| Cafodd y polisi diogelwch ar-lein hwn ei gymeradwyo gan y *corff llywodraethu / is-bwyllgor llywodraethwyr ar:* | |
| Bydd y canlynol yn monitro sut bydd y polisi diogelwch ar-lein hwn yn cael ei roi ar waith: | *Awel Medi Hughes*<br><br>*Lauren Cockayne* |
| Bydd monitro yn digwydd yn rheolaidd: | *Yn flynyddol* |
| Bydd y *corff llywodraethu / is-bwyllgor y llywodraethwyr* yn derbyn adroddiad ar weithredu'r polisi diogelwch ar-lein a fydd yn cael ei gynhyrchu gan y grŵp monitro (bydd yn cynnwys manylion dienw am achosion diogelwch ar-lein) yn rheolaidd: | *Yn flynyddol* |
| Bydd y polisi diogelwch ar-lein yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu'n amlach yng ngoleuni datblygiadau newydd arwyddocaol o ran defnyddio technolegau, bygythiadau newydd i ddiogelwch ar-lein neu unrhyw achosion sydd wedi digwydd. Rhagwelir y bydd y dyddiad adolygu nesaf ar: | |
| Os bydd achosion diogelwch ar-lein difrifol yn digwydd, dylid hysbysu'r personau / asiantaethau allanol hyn: | *Rheolwr TGCh ALl, Swyddog Diogelwch ALl, Heddlu – gan ddibynu ar y digwyddiad.* |

Bydd yr ysgol yn monitro effaith y polisi drwy wneud y canlynol:

- *Cofnodi digwyddiadau*
- *Monitro cofnodion o weithgarwch y rhyngrwyd (gan gynnwys y gwefannau sydd wedi cael eu defnyddio)*
- *Cadw data mewnol yn monitro gweithgareddau ar y rhwydwaith*
- *Cynnal arolygon neu holiaduron ar gyfer:*
    - *dysgwyr*
    - *rhieni a gofalwyr*
    - *Staff.*

**Rolau a chyfrifoldebau**

Mae'r polisi yma angen cael ei hystyried ar y cyd gyda pholisi dysgu ar lein. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau o fewn yr ysgol/coleg sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein:[1]

**Llywodraethwyr**

Mae'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeradwyo'r polisi dysgu ar-lein ac am adolygu effeithiolrwydd y polisi.

**Penaethiaid ac uwch arweinyddion**

- Dyletswydd y pennaeth yw sicrhau diogelwch (gan gynnwys diogelwch ar-lein) holl aelodau cymuned yr ysgol. Fodd bynnag, caniateir i'r cydlynydd/swyddog diogelwch ar-lein ysgwyddo cyfrifoldebau bob dydd dros ddiogelwch ar-lein.

- Mae'r pennaeth/uwch arweinwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y cydlynydd/swyddog diogelwch ar-lein a staff eraill perthnasol yn derbyn hyfforddiant addas i'w galluogi i gyflawni eu rolau dysgu ar-lein ac i roi hyfforddiant i gyd-weithwyr pan fo hynny’n berthnasol.
- Bydd y pennaeth/uwch arweinwyr yn sicrhau bod system yn ei lle i allu monitro a rhoi cymorth i’r rhai sy’n monitro diogelwch ar-lein mewnol yr ysgol. Bydd hyn yn diogelu ac yn cefnogi’r gweithwyr sy’n mynd i'r afael â rolau monitro pwysig.
- Bydd y pennaeth/uwch arweinwyr yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd gan y cydlynydd / swyddog diogelwch ar-lein.

**Staff Dysgu a Chymorth**


Mae’r unigolion hyn yn gyfrifol am sicrhau’r canlynol:

- ymwybyddiaeth gyfredol o faterion dysgu ar-lein ac o bolisi ac arferion diogelwch ar-lein cyfredol yr ysgol
- eu bod wedi darllen, deall ac arwyddo cytundeb defnydd derbyniol y staff (CDD)
- eu bod yn rhoi gwybod i’r *pennaeth/uwch arweinydd; cydlynydd/swyddog diogelwch ar-lein* am unrhyw gamddefnydd neu broblem, er mwyn iddo gael ymchwilio/gweithredu

Mae cyfrifoldebau Staff a disgyblion wedi nodi fel rhan o atodiad 1: Cytundeb gyda rhieni.

Er mwyn diogelu staff a disgyblion ar lein, mae asesiad risg yn nodi’r pryderon ac yn dangos sut i leihau’r risg sef atodiad 2.

**Dysgu ar lein Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School:**



Meddalwedd sydd ar gael i'r ysgol:
See-Saw
Sumdog
Bysedd Nessy

**Sesiynau Byw: Microsoft TEAMS**

| Lleoliad | Oedolion | Recordio |
|---|---|---|
| O'r Ysgol | 2 Oedolyn<br>1 Oedolyn + Recordio | 1 oedolyn angen recordio |
| O'r tŷ | 2 Oedolyn + recordio | Recordio gydag 1 neu 2 oedolyn |

Er mwyn recordio, nid oes angen caniatad ysgrifenedig fodd bynnag mae angen hysbysu'r disgyblion a rhieni ar ddechrau'r sesiwn.

Canllawiau Cenedlaethol:

https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideogynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu/

**CYTUNDEB DYSGU AR LEIN YSGOL GYNRADD GROES-WEN PRIMARY SCHOOL (Atodiad 1)**

**Mae ymarferwyr yn cytuno i:**

- drafod rolau a chyfrifoldebau gyda'r dysgwyr ar ddechrau pob gwers/sesiwn
- rhoi gwybod i uwch dîm rheoli’r ysgol, y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr am unrhyw wersi/sesiynau sydd wedi’u trefnu, gwersi/sesiynau sydd wedi’u canslo neu newid i drefniadau

- sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r holl weithdrefnau a pholisïau diweddaraf perthnasol, gan gynnwys polisïau diogelu data, diogelu a diogelwch ar-lein
- sicrhau na fydd sefyllfa un-i-un yn digwydd ar ôl i ddosbarth ar-lein ddod i ben, drwy ddatgysylltu pawb ar ddiwedd y wers/sesiwn.

**Mae dysgwyr yn cytuno i:**

- fod yn brydlon ar gyfer pob gwers/sesiwn fideo-gynadledda
- cael gafael ar y ffeiliau perthnasol ar gyfer pob gwers/sesiwn ymlaen llaw, a gwneud yn siŵr bod y deunyddiau wrth law
- gwneud yn siŵr bod pob addasydd pŵer a gliniadur yn barod cyn i’r wers/sesiwn ddechrau, a’u bod wedi mewngofnodi i’r wers/sesiwn
- dangos parch tuag at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein
- gwisgo’n addas ar gyfer pob gwers/sesiwn, gan gofio dangos parch tuag at bobl eraill
- sicrhau eu bod yn mewngofnodi o leoliad addas a newid eu lleoliad 'cefndir' fel y cytunwyd gyda'r ymarferydd
- ceisio cyfrannu at y wers/sesiwn mewn ffordd gadarnhaol, a pheidio â tharfu arni ar unrhyw adeg
- peidio â rhannu lluniau o'r sesiwn neu wers.

Llofnod Rhiant:

Enw Plentyn:

Blwyddyn:

Pennaeth: R Carli

Dyddiad:

Atodiad 2: Asesiad Risg:

CARDIFF
CAERDYDD

**ASESIAD RISG IECHYD A DIOGELWCH**

Lleoliad Gweithle **Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School**

Tasg/Gweithgaredd Dysgu ar lein.

Dyddiad **Ionawr 2021**

Llofnodwyd: R Carli

| **PERYGL** *Edrychwch yn unig am beryglon y byddai'n rhesymol i gredu y gallent arwain at niwed sylweddol oherwydd amodau eich gweithle.* | **PWY ALLAI DDIODDEF NIWED** *Does dim angen rhestr o enwau unigolion - meddyliwch am grwpiau o bobl sydd yn gwneud gwaith tebyg neu a allai gael eu heffeithio.* | **GRADD RISG** *Rhowch flaenoriaeth i'r risg fel un uchel, canolig neu isel,* | **YDY'R RISG WEDI EI REOLI'N DDIGONOL?** *Ydych chi wedi rhagofalu yn erbyn pob risg sy'n deillio o'r peryglon a restrwyd?* | **PA GAMAU ERAILL SYDD HANGEN EU CYMRYD I REOLI'R RISG?** *Beth arall allwch chi ei wneud o fewn rheswm i liniaru'r risgiau hynny nad sydd wedi eu rheoli'n* | **RISG GWEDDILLIOL** *Blaenoriaethwch hyn fel un Uchel, Canolig neu Isel* |
|---|---|---|---|---|---|


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *ddigonol yn eich barn chi?* | |
| Dysgu ar lein – Dim cytundeb | Staff ysgol a Disgyblion, | **Uchel** | Rhieni I lofnodi cytundeb:<br><br>**Mae ymarferwyr yn cytuno i:**<br>● drafod rolau a chyfrifoldebau gyda'r dysgwyr ar ddechrau pob gwers/sesiwn<br>● rhoi gwybod i uwch dîm rheoli'r ysgol, y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr am unrhyw wersi/sesiynau sydd wedi'u trefnu, gwersi/sesiynau sydd wedi'u canslo neu newid i drefniadau<br>● sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl weithdrefnau a pholisïau diweddaraf perthnasol, gan gynnwys polisïau diogelu data, diogelu a diogelwch ar-lein<br>● sicrhau na fydd sefyllfa un-i-un yn digwydd ar ôl i ddosbarth ar-lein ddod i ben, drwy ddatgysylltu pawb ar ddiwedd y wers/sesiwn.<br>**Mae dysgwyr yn cytuno i:**<br>● fod yn brydlon ar gyfer pob gwers/sesiwn fideo-gynadledda<br>● cael gafael ar y ffeiliau perthnasol ar gyfer pob gwers/sesiwn ymlaen llaw, a gwneud yn siŵr bod y deunyddiau wrth law<br>● gwneud yn siŵr bod pob addasydd pŵer a gliniadur yn barod cyn i'r wers/sesiwn ddechrau, a'u bod wedi mewngofnodi i'r wers/sesiwn | Sicrhau bod pawb yn ddilyn y rheolau | **Isel** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | <ul><li>dangos parch tuag at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein</li><li>gwisgo'n addas ar gyfer pob gwers/sesiwn, gan gofio dangos parch tuag at bobl eraill</li><li>sicrhau eu bod yn mewngofnodi o leoliad addas a newid eu lleoliad 'cefndir' fel y cytunwyd gyda'r ymarferydd</li><li>ceisio cyfrannu at y wers/sesiwn mewn ffordd gadarnhaol, a pheidio â tharfu arni ar unrhyw adeg</li><li>peidio â rhannu lluniau o'r sesiwn neu wers.</li></ul> | | |
| Sesiwn byw | Staff Ysgol & Disgyblion | **Uchel** | Angen 2 oedolyn ar bob sesiwn. Os nad oes posibiliad i gael 2 oedolyn bydd angen recordio'r sesiwn gan adael i rieni gwybod cyn y sesiwn eu bod angen recordio.<br><br>Mae TEAMS yn cadw pob recordiad am 20 diwrnod. Ni fydd hawl rhannu hyn heb ganiatad pob person sydd yn rhan o'r sesiwn. | Negeseuo rhieni – efallai bydd angen recordio sesiwn | **Isel** |
| Recordio sesiwn byw | Staff Ysgol & Disgyblion | **Uchel** | Fel yr uchod. Atgoffa plant a rhieni nid oes hawl recordio sesiynau. Sicrhau bod rhieni yn deall pryd bydd athrawon yn recordio sesiwn. | Negeseuo rhieni – does dim hawl recordio sesiynau. | **Isel** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Petai athrawon yn ffrydio byw o adref, mae hi'n bwysig i ddiogelu staff gan recordio sesiynau.<br><br>Mae TEAMS yn cadw pob recordiad am 20 diwrnod.  Ni fydd hawl rhannu hyn heb ganiatad pob person sydd yn rhan o'r sesiwn. | | |
| . Defnyddio dyfais addas | Staff Ysgol &Disgyblion, | **Canolig** | Sicrhau bod gan staff a rhieni mynediad at ddyfais addas (sef dyfais y Sir) ar gyfer gweithio ar lein. | | **Isel** |
| Cofnodi ymddygiad sarhaus, anaddas neu anghyfreithlon | Staff Ysgol & Disgyblion, | **Uchel** | Ni chaniateir ymddygiad amhriodol neu anghyfreithlon a gall hyn arwain at achos heddlu.<br><br>Bydd yr aelod o staff ar lein gydag oedolyn arall er mwyn sicrhau pob sefyllfa a phetai bod unrhyw ymddygiad tebyg bydd y sesiwn yn dod I ben a bydd staff yn cofnodi'r digwyddiad a rhannu gyda'r Arweinydd Digidol a'r Pennaeth. | | **Canolig** |

LLofnod Pennaeth: Richard Carbis

Dyddiad: 10.10.24

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: 

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 02 |
| Dyddiad Adolygu: | Hydref 2025 |